CLARENCE HALL
POLISI CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH
Diweddarwyd ddiwethaf Mawrth 2025

DATGANIAD POLISI

Bwrdd Rheoli Clarence Hall (y Bwrdd Rheoli) yw'r corff rheoli ar gyfer Clarence Hall, Crickhowell, sy'n elusen gofrestredig (1187701) ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant (11971202).

Mae'r Bwrdd Rheoli yn cydnabod bod gan bawb gyfraniad i'w wneud i gymdeithas a hawl i driniaeth gyfartal. Mae gennym gyfrifoldeb i annog diwylliant cefnogol a chynhwysol ymhlith cymuned Clarence Hall trwy greu lle cadarnhaol lle gall pawb fwynhau amgylchedd sy'n ddiogel, pleserus a pharchus.

Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, mae'r polisi hwn yn atgyfnerthu ein hymrwymiad i ddarparu cydraddoldeb a thegwch i bawb ac i osgoi darparu cyfleusterau neu driniaeth lai ffafriol ar sail oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth, hil, tarddiad ethnig, lliw, cenedligrwydd, tarddiad cenedlaethol, crefydd neu gred, neu ryw neu gyfeiriadedd rhywiol. Rydym yn gwrthwynebu pob math o wahaniaethu anghyfreithlon ac annheg.

Ceisiwn hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant ac ymateb i anghenion pob unigolyn mewn modd teg a chyfiawn, wrth gadw at ein hymrwymiad a'n cyfrifoldeb tuag at bob deddfwriaeth, rheoliad a chanllawiau perthnasol mewn perthynas â chydraddoldeb, yn arbennig Deddf Cydraddoldeb 2010 a'r holl ychwanegiadau a diwygiadau dilynol sy'n berthnasol yng Nghymru yn benodol.

NODAU

Yn ei holl weithgareddau, bydd y Bwrdd Rheoli yn ceisio sicrhau na fydd unrhyw wahaniaethu yn erbyn unrhyw weithiwr, aelod pwyllgor, gwirfoddolwr, sefydliad, contractwr neu unigolyn sy'n defnyddio cyfleusterau'r Neuadd, gan y Bwrdd Rheoli yn ei gyfanrwydd, neu gan aelodau unigol, neu'r rhai sy'n gweithredu ar ein rhan. Rhoddir cyfle cyfartal i bob gweithiwr, llogwr, defnyddiwr a gwirfoddolwr a chânt eu trin yn deg a chyda pharch. Mae'r ymrwymiadau hyn yr un mor berthnasol i denantiaid Clarence Hall House.

Anelwn at sicrhau bod ein sefydliad yn gynrychioliadol o bob rhan o gymdeithas, wrth gydnabod telerau Cyfansoddiad y Neuadd. Pan fyddwn yn dewis ymgeiswyr ar gyfer y Bwrdd Rheoli neu swyddi gwirfoddol allweddol eraill, bydd hynny ar sail eu dawn a'u gallu. Mae'n bolisi gan y Bwrdd Rheoli na chaiff unrhyw unigolyn ystyriaeth lai ffafriol nag eraill.

Rydym wedi ymrwymo i'r canlynol:

- Creu amgylchedd lle mae gwahaniaethau unigol a chyfraniadau pawb yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi.
- Creu amgylchedd sy'n hyrwyddo urddas a pharch i bawb.
- Sicrhau bod ein holl wasanaethau'n cael eu darparu mewn ffordd sy'n hybu ymwybyddiaeth o hawliau ac anghenion pobl o grwpiau lleiafrifol ac sy'n galluogi pawb i gael mynediad at y gwasanaethau hynny.
- Sicrhau bod holl delerau ac amodau cyflogaeth a gwirfoddoli'r Bwrdd Rheoli yn adlewyrchu ystod o anghenion a diddordebau sy'n cwmpasu pobl a allai fod dan anfantais fel arall.
- Peidio â goddef unrhyw fath o wahaniaethu, bygwth, bwlio neu aflonyddu, ac osgoi llogi'r cyfleuster i'r rhai sy'n torri'r polisi hwn.
- Sicrhau bod hyfforddiant ar gael i bob ymddiriedolwr a gwirfoddolwr allweddol lle bo'n briodol ac annog datblygu eu doniau unigryw fel bod eu llawn botensial yn cael ei wireddu.
- Hyrwyddo diwylliant cynhwysol ar gyfer ein cymuned i gyd a'r bobl yr ydym yn eu gwasanaethu.
- Annog unrhyw un sy'n teimlo eu bod wedi dioddef gwahaniaethu i fynegi eu pryderon fel y gallwn roi mesurau unioni ar waith.
- Annog pawb i gael eu trin ag urddas a pharch.

Bydd y Bwrdd Rheoli yn cymryd camau cadarnhaol i sicrhau bod ein gwasanaethau i grwpiau ac unigolion eraill, a'n cysylltiadau â hwy yn adlewyrchu'r Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth hwn, drwy:

- Ymgynghori â'r Pwyllgor Cymunedol a grwpiau ac unigolion eraill sydd ag anghenion arbennig i ganfod sut y gellir gwella gwasanaethau'r Neuadd i ddiwallu eu hanghenion.
- Sicrhau bod pob unigolyn sy'n cynrychioli'r Bwrdd Rheoli yn ymwybodol o'r polisi hwn, yn ei ddeall ac yn ei weithredu.
- Adolygu ein holl arferion a gweithdrefnau yn rheolaidd fel bod tegwch yn cael ei sicrhau bob amser.

CYFRIFOLDEBAU'R BWRDD RHEOLI

Mae'r Bwrdd Rheoli:

- Yn gyfrifol am weithredu a monitro'r Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth hwn.
- Bydd yn sicrhau bod pob unigolyn o fewn y sefydliad, boed yn gyflogedig neu'n ddi-dâl, yn deall yn glir ac yn ymarfer yr egwyddorion sydd wedi'u cynnwys yn y polisi hwn. Cyflawnir hyn drwy ddarparu'r hyfforddiant priodol i holl aelodau newydd y sefydliad.
- Ni fydd yn erlid unrhyw un sydd wedi rhoi gwybodaeth am wahaniaethu.

CYFRIFOLDEBAU'R GYMUNED

Mae'n ofynnol i holl weithwyr, llogwyr, gwirfoddolwyr, contractwyr a mynychwyr digwyddiadau Clarence Hall ein cynorthwyo i gyflawni ein hymrwymiadau, i sicrhau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac osgoi gwahaniaethu anghyfreithlon. Yn benodol, mae hyn yn golygu:

- Bydd gofyn i ddefnyddwyr gydweithio gyda mesurau a gyflwynwyd gan y Bwrdd Rheoli i sicrhau a hyrwyddo cyfle cyfartal.
- Ni fydd yn arfer unrhyw fath o wahaniaethu nac yn defnyddio iaith wahaniaethol.
- Bydd yn tynnu sylw'r Bwrdd Rheoli at unrhyw achosion o wahaniaethu a amheuir.
- Ni fydd yn erlid unrhyw un sydd wedi rhoi gwybodaeth am wahaniaethu.

Rydym yn ystyried gweithredoedd o wahaniaethu, aflonyddu, bwlio neu erledigaeth fel ymddygiad annerbyniol ac os bydd llogwyr yn cefnogi'r ymddygiad hwn yna ni fydd y neuadd ar gael i'w llogi i'r bobl hynny yn y dyfodol.

CWYNION

Dylai unigolion sy'n ystyried y gallai fod rhywun wedi gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn eu herbyn godi'r mater gyda Chadeirydd y Bwrdd Rheoli. Mae'r manylion cyswllt perthnasol i'w gweld yng nghyntedd y Neuadd ac ar ei gwefan - https://www.clarencehallcrickhowell.org.uk.

Pe bai sefyllfa'n codi lle bo'r gwyn yn erbyn Cadeirydd y Bwrdd Rheoli, dylai unigolion godi'r mater gydag unrhyw un arall o aelodau'r Bwrdd Rheoli, a fydd yn cymryd cyfrifoldeb llawn am ymdrin â'r gwyn.

Bydd y Bwrdd Rheoli yn cymryd cwynion o wahaniaethu ac aflonyddu yn ddifrifol iawn. Byddant yn eu hymchwilio'n drwyadl ac yn rhoi cyfleoedd i'r unigolyn sy'n gwneud y gwyn siarad mewn amgylchedd diogel am ei brofiad.

Os yw'r gwyn yn erbyn unigolyn arbennig, bydd yr unigolyn hwn yn cael cyfle i fynegi ei safbwynt.

Bydd y Bwrdd Rheoli yn penderfynu ar y camau i'w cymryd yn seiliedig ar yr egwyddor o sicrhau y bydd unrhyw unigolyn sydd wedi profi gwahaniaethu neu aflonyddu yn parhau i gael ei gynnwys a'i ddiogelu.

Bydd cwynwyr sy'n parhau i fod yn anfodlon yn cael eu hysbysu bod cyfle iddynt wneud cwyn ffurfiol trwy Bolisi Cwynion y Neuadd, sydd ar gael ar wefan y Neuadd ar y ddolen uchod.

Dyddiad y diweddariad diwethaf a chymeradwyaeth y Bwrdd Rheoli: Mawrth 2025
Dyddiad yr adolygiad nesaf: Ionawr 2027

Swyddog cyfrifol: Dean Christy